O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2469 (Cy. 266)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cyffordd Ffordd Bace i Landdowror, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *13 Hydref 2011*

Yn dod i rym *24 Hydref 2011*

GAN FOD Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Hydref 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cyffordd Ffordd Bace i Landdowror, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00.01 o'r gloch ar 24 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys.